BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CYSUR & CWMPAS

THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING BOARD

CYNLLUN BLYNYDDOL | ANNUAL PLAN

## 2020-21

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Powys Teaching Health Board

GIG Cymru NHS Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / University Health Board

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol / National Probation Service

Heddlu•Police Dyfed-Powys

Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru Wales Community Rehabilitation Company – Prawf Probation – Gweithredir gan / Operated by Working Links

Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council

Powys

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

**CYFLWYNIAD**

Mae CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru a CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn falch o gyhoeddi a chyflwyno ei bedwerydd cydgynllun strategol blynyddol ar gyfer 2020-21. Erbyn hyn mae agwedd o ddiogelu pobl o bob oed ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl yn y Canolbarth a'r Gorllewin wedi gwreiddio'n gadarn yn strwythurau'r Bwrdd ac yn rhan o fusnes bob dydd ar draws y rhanbarth.

Y meysydd a nodwyd ar gyfer dal i wella sy'n ffurfio sail cynllun a rhaglen waith uchelgeisiol am y flwyddyn a ddaw, gan geisio cyfnerthu a chryfhau'r cynnydd a wnaed gan Fyrddau CYSUR a CWMPAS yn y blynyddoedd diwethaf. Nodau pennaf a throsfwaol y Bwrdd yw cynorthwyo asiantaethau i gydgyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel yr amlinellwyd yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a diogelu ac atal plant ac oedolion mewn perygl yn y rhanbarth rhag dioddef camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.

Wrth i ni symud tuag at gyhoeddi, rydym ni fel Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r asiantaethau a gynrychiolwn yn cael ein hunain ynghanol argyfwng cenedlaethol ac iechyd y cyhoedd yng nghyd-destun pandemig y COVID-19. Ar hyn o bryd, mae asiantaethau ar draws y bartneriaeth strategol yn cydweithredu i reoli'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod y rhai yn y perygl ac angen mwyaf yn dal i dderbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Tra'r ydym yn dal i ymroddi'n llwyr i gyflawni gyferbyn â'n hamcanion dynodedig, mae'n debygol y bydd angen adolygu a newid blaenoriaethu'n rheolaidd yn y flwyddyn a ddaw. Yn ei dro, fe all hyn effeithio ar ein gallu i gyflawni gyferbyn â'r holl flaenoriaethau ac amcanion a gytunwyd gennym.

Fel erioed, gwasanaethu dinasyddion a chymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru a sicrhau mai diogelu'r rhai yn y perygl ac angen mwyaf fydd ein blaenoriaeth ac yn aros yn bennaf wrth symud ymlaen yn y flwyddyn a ddaw. Nid oes gennym unrhyw amheuaeth na fydd y naws gref o gydweithredu a chydweithio yn ein rhanbarth yn ein cynorthwyo ac yn rhoi nerth inni reoli'r heriau a ddaw gyda'n gilydd.



**Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Gâr





**Jonathan Griffiths (Cadeirydd CWMPAS)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
a Thai Cyngor Sir Penfro



## EIN GWELEDIGAETH

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw bod pawb yn y rhanbarth yn byw eu bywydau'n rhydd o drais, camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio a'u hawliau'n cael eu gwarchod. Mae holl waith diogelu'n ystyriol o ac wedi gwreiddio'n gadarn mewn parch at wahaniaethau hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'n hanfodol gweithio'n agos gyda holl randdeiliaid a bod ymatebol i'w hanghenion, gan gynnwys plant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl, eu teuluoedd, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, i hyrwyddo gweledigaeth y Bwrdd.

| Aelodau Bwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | |
|---|---|
| **CWMPAS<br>(Bwrdd Gweithredol Diogelu Oedolion)** | **CYSUR<br>(Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant)** |
| **Jonathan Griffiths (Cadeirydd)**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai Cyngor Sir Penfro | **Jake Morgan (Cadeirydd)**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol<br>Cyngor Sir Gâr |
| **Anthony Griffiths (Is-gadeirydd)**<br>Ditectif Uwcharolygydd,<br>Heddlu Dyfed Powys | **Siân Passey (Is-gadeirydd)**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio a Diogelu Nyrsio Corfforaethol,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Jake Morgan**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol<br>Cyngor Sir Gâr | **Jonathan Griffiths**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai Cyngor Sir Penfro |
| **Donna Pritchard**<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion | **Donna Pritchard**<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion |
| **Alison Bulman**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyngor Sir Powys | **Alison Bulman**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyngor Sir Powys |
| **Siân Passey**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio a Diogelu Nyrsio Corfforaethol,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Anthony Griffiths**<br>Ditectif Uwcharolygydd,<br>Heddlu Dyfed Powys |
| **Avril Bracey**<br>Pennaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu Oedolion,<br>Cyngor Sir Gâr | **Stefan Smith**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Cyngor Sir Gâr |
| **Jason Bennett**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Cyngor Sir Penfro | **Darren Mutter**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Cyngor Sir Penfro |
| **Michael Gray**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Cyngor Sir Powys | **Jan Coles**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Cyngor Sir Powys |
| **Siân Howys**<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro Porth Cynnal a Gwasanaethau Plant,<br>Cyngor Sir Ceredigion | **Siân Howys**<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro Porth Cynnal a Gwasanaethau Plant,<br>Cyngor Sir Ceredigion |
| **Christine Harley**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Y Gwasanaeth Profiannaeth Cenedlaethol | **Christine Harley**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Y Gwasanaeth Profiannaeth Cenedlaethol |
| **Mandy Rayani**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Mandy Rayani**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

| | |
|---|---|
| **Mandy Nichols-Davies**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Gyswllt),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Mandy Nichols-Davies**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Gyswllt),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Jayne Powliwr-Sexton**<br>Cyfarwyddwr Diogelu Cynorthwyol (Nyrs Gyswllt),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Jayne Powliwr-Sexton**<br>Cyfarwyddwr Diogelu Cynorthwyol (Nyrs Gyswllt),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Alison Davies**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Alison Davies**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Karen Toohey**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | **Karen Toohey**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Daphne Rose**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | **Daphne Rose**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Nikki Harvey**<br>Pennaeth Diogelu,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | **Nikki Harvey**<br>Pennaeth Diogelu,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **Hazel Lloyd-Lubran**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) | **Hazel Lloyd-Lubran**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |
| **Chris Harrison**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Penaethiaid Comisiynu | **Steve Davis**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid |
| | **Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol**<br>Aelodaeth gylchredol o Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion a Phowys |
| | **Dr Ingrid Prosser**<br>Meddyg Cyswllt, Amddiffyn Plant,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| | **Dr Damitha Ratnasinghe**<br>Meddyg Cyswllt, Amddiffyn Plant,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

| **Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru** |
|---|
| **Julie Breckon**<br>Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol |
| **Rebecca Reynolds**<br>Swyddog Datblygu Busnes |
| **Stuart Hicks**<br>Cydgysylltydd Busnes |

**CANLYNIADAU BLAENORIAETHAU STRATEGOL DYNODEDIG AR GYFER 2020-21**

1. **Ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol:** Gwella ymgysylltu ac ymgynghori â phlant, oedolion mewn perygl, grwpiau agored i niwed, gweithwyr proffesiynol a phartneriaethau.

2. **Dysgu thematig a datblygu arferion gorau:** Sicrhau agwedd thematig at ddysgu a chloriannu effaith barhaus gwaith y Bwrdd gyda threigl amser, gan weld bod themâu allweddol a ddynodwyd yn ysbrydoli blaenoriaethau strategol. Dal i ddatblygu a rhannu arferion gorau.

3. **Atgyfnerthu'r gweithlu a rheoli perygl:** Datblygu a gweithredu arweiniadau strategol fydd yn galluogi dal gafael a denu mwy i'r gweithlu gofal cymdeithasol, a nodi ac ymateb i beryglon sylweddol eraill yn y maes diogelu.

4. **Arweinyddiaeth, gwelededd a her:** Dal i ddarparu arweinyddiaeth weladwy a dylanwadu ar yr agenda cenedlaethol mewn cysylltiad â blaenoriaethau diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, a galluogi her adeiladol a chyfranogiad gweithgar holl asiantaethau yn ein partneriaeth.

Yn ein Cynllun Busnes isod mae rhestr o sut y bwriadwn gyflawni'r canlyniadau hyn a chrynodeb o'r gwelliannau y bwriadwn eu gwneud er mwyn gallu cyflawni ein hamcanion.

## Cynllun Busnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru 2020-21

| 1 Ymgysylltu a Chyfathrebu Effeithiol: Gwella ymgysylltu ac ymgynghori â phlant, oedolion mewn perygl, grwpiau agored i niwed, gweithwyr proffesiynol a phartneriaethau. | | |
|---|---|---|
| Maes Blaenoriaeth | Beth hoffem ei gyflawni? | Beth yw'r dangosyddion canlyniadau? |
| **1.1 Ymgysylltu ag Oedolion mewn Perygl.** | Cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol gydag oedolion mewn perygl fel bod eu llais yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar ein blaenoriaethau strategol a'n cynlluniau gwaith. | Bydd llais oedolion mewn perygl yn dylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Bwrdd. |
| | Targedu llais pobl hŷn a grwpiau anodd eu cyrraedd yn benodol. | |
| | Nodi fforymau allweddol sy'n bodoli eisoes a datblygu cysylltiadau cryf i hwyluso ymgynghori'n rheolaidd gyda grwpiau agored i niwed. | Bydd Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rhanbarthol ar gyfer Oedolion mewn Perygl yn cael ei datblygu. |
| **1.2 Grŵp Iau a Byrddau Iau Diogelu Plant lleol CADW.** | Dal i gyfnerthu a chryfhau llinellau cyfathrebu fel bod CADW'n gallu dwysáu materion i'r Bwrdd Gweithredol. | Bydd gwaith y Bwrdd Gweithredol yn dal i gael ei ysbrydoli gan blant a phobl ifanc a llais y Bwrdd Diogelu Iau. |
| | Gwella ac atgyfnerthu CADW a chysylltiadau'r Bwrdd gyda LSCB Iau lleol a Phartneriaethau Plant. | Byrddau Iau Lleol bydd yn ymgysylltu'n weithredol ac yn cyfrannu at agenda ehangach CADW. |
| | | Bydd llais y Byrddau Iau Lleol yn ysbrydoli cynlluniau gwaith a strategaethau CADW. |
| | Cynorthwyo CADW i ddatblygu cynllun gwaith eglur sydd dan ddylanwad blaenoriaethau'r Bwrdd. | Bydd themâu a materion a nodwyd yn y Bwrdd Gweithredol yn ysbrydoli cynllun gwaith manwl a phenodol. |
| | | Bydd CADW yn cael darnau penodol o waith sy'n cyfrannu at yr agenda Diogelu ehangach ac sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol y Bwrdd. |
| **1.3 Cyfathrebu gyda Phartneriaethau Strategol Rhanbarthol Eraill** | Cyfnerthu a chryfhau cysylltiadau gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. | Bydd cysylltiadau gyda fforymau rhanbarthol eraill yn gryfach. |
| | Sefydlu cysylltiadau gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol. | Bydd blaenoriaethau a chyfleoedd cyffredin ar gyfer unrhyw weithio ar y cyd yn cael eu sefydlu. |
| | | Bydd llinell weld y Bwrdd ar achosion diogelu cyd-destunol risg uchel yn gryfach. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cryfhau cysylltiadau gyda Fforymau Diogelu Cyd-destunol Rhanbarthol gan gynnwys y Bwrdd Cyd-destun a Phaneli Sianelu. | Bydd y Bwrdd yn cael sicrwydd bod materion diogelu cyd-destunol yn cael eu rheoli'n ddigonol o fewn partneriaethau lleol a fforymau gwarchod y cyhoedd. |
| **1.4 Cyfathrebu gydag Ymarferwyr** | Tynnu sylw at y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'i waith. Bydd hyn yn cael ei gyfleu trwy'r canlynol:<br><br>• Taflen newyddion yn dathlu gwaith y Bwrdd ac yn amlinellu canolbwyntiau presennol.<br>• Gwell cynnwys perthnasol i ddiogelu oedolion a phlant mewn perygl ar gyfryngau cymdeithasol a'r wefan.<br>• Targedu athrawon ac addysgwyr proffesiynol yn benodol. | Bydd ymarferwyr yn ymwybodol o flaenoriaethau presennol a darnau o waith o fewn y Bwrdd. |
| | | Bydd gan ymarferwyr well dealltwriaeth o swyddogaeth y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a sut mae hyn yn dylanwadu ar arferion proffesiynol. |
| | | Bydd ymarferwyr yn teimlo'n fwy hyddysg mewn cysylltiad â datblygiadau allweddol a'u heffaith ar y gwasanaethau rheng flaen. |
| | | Bydd canolbwynt adnoddau ar-lein gydag offer a chanllawiau priodol yn cael ei ddatblygu i'w helpu yn eu gwaith. |
| | | Bydd dogfen o ganllawiau a gwybodaeth yn cael ei datblygu ar gyfer staff Addysg. |
| **1.5 Cyfathrebu gyda'r Cyhoedd** | Y cyhoedd yn fwy ymwybodol o swyddogaeth y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ei waith a'i lwyddiannau. | Bydd y cyhoedd a grwpiau cymunedol yn fwy deallus o'r Bwrdd a'i waith a'i swyddogaethau ac, yn ei dro, bydd y Bwrdd yn gallu cyfathrebu â'r cyhoedd i gael ymateb pan fo hynny'n fuddiol. |
| | Sefydlu ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth effeithiol o faterion diogelu allweddol cysylltiedig â blaenoriaethau'r Bwrdd. | Bydd gan y cyhoedd well dealltwriaeth o faterion diogelu, sy'n arwain at fwy o hysbysu pryderon ynghylch plant ac oedolion mewn perygl. |
| | | Bydd Wythnos Ddiogelu Genedlaethol yn cael ei defnyddio fel llwyfan i ledaenu negeseuon diogelu allweddol. |
| | | Bydd Canolbwynt Adnoddau sy'n rhoi canllawiau i rieni a gofalwyr ar gadw plant ac oedolion yn ddiogel yn cael ei ddatblygu. |

| 2 Dysgu Thematig a Datblygu Arferion Gorau: Sicrhau agwedd thematig at ddysgu a chloriannu effaith barhaus gwaith y Bwrdd gyda threigl amser, gan ganiatáu i themâu allweddol a nodwyd ysbrydoli blaenoriaethau strategol. Dal i ddatblygu a rhannu arferion gorau. | | |
|---|---|---|
| Maes Blaenoriaeth | Beth hoffem ei gyflawni? | Beth yw'r dangosyddion canlyniadau? |
| **2.1 Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion** | Adolygu a gwella ffurfio Cynlluniau Gweithredu o Adolygiadau Ymarfer. | Bydd camau gweithredu'n fesuradwy, cyraeddadwy, amserol a chanolbwyntio ar ganlyniadau. |
| | | Bydd amserlenni ar gyfer cyflawni a chau cynlluniau gweithredu'n gwella. |
| | Adolygu ac addasu strwythur presennol y CPR rhanbarthol ac Is-grŵp Rhanbarthol APR. | Bydd yr Is-grŵp Adolygu Arferion yn adlewyrchu strwythur y Bwrdd a'i agwedd pob oed at ddiogelu. |
| | Cyfrannu at Adolygiad Cenedlaethol y Fframwaith Adolygu Dynladdiad yn y Cartref. | Bydd dysgu o Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref a fforymau eraill yn cael ei ddal yn drefnus gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a gwersi allweddol yn cael eu rhannu gydag ymarferwyr. |
| | Dal ac ymgorffori dysgu perthnasol o fforymau asiantaethau eraill a threfniadau dysgu yn y Bwrdd rhanbarthol a'i is-grwpiau. | Bydd themâu amlasiantaethol trawsbynciol a throsfwaol cyffredin yn hawdd eu hadnabod, a bydd addysg ymarferwyr yn ehangach a chyfoethocach. |
| **2.2 Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol** | Dal i ddatblygu'r Fforwm FfPA Rhanbarthol a chynyddu nifer y FfPA sy'n digwydd yn rhanbarthol. | Bydd plant ac oedolion mewn perygl yn fwy diogel trwy well gwybodaeth broffesiynol a gwell arferion diogelu. |
| | Cynorthwyo a datblygu cymorth a chydweithio ar draws ffiniau a thrwy asiantaethau wrth gyflawni a hwyluso adolygiadau ac achlysuron dysgu. | Bydd cyfleoedd i ymarferwyr gyfranogi mewn achlysuron dysgu myfyriol yn cynyddu. |
| | | Bydd datblygiad proffesiynol yn cael cymorth trwy rannu gwybodaeth a sgiliau. |
| **2.3 Rhannu dysg a gwersi thematig a ddysgwyd** | Rhannu themâu a gwersi o Adolygiadau Ymarfer, FfPA ac ADC trwy achlysuron lledaenu amlasiantaethol rhanbarthol. | Bydd asiantaethau ac ymarferwyr yn fwy deallus ynghylch arferion gorau'n barhaol ac yn gallu rhannu dysg a phlannu hyn ledled tiriogaeth y Bwrdd. |
| | Defnyddio ffurf gymeradwy'r briffio 7 munud i ledaenu gwersi o Adolygiadau Ymarfer, FfPA, Archwiliadau ac Ymchwiliadau i ymarferwyr rheng flaen. | |
| **2.4 Sicrwydd Ansawdd a** | Adolygu a datblygu'r fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad rhanbarthol. | Bydd y Bwrdd yn craffu ar anghysondeb rhanbarthol, rhannu arferion da a hwyluso hunanadolygu o fewn asiantaethau. |

| | | |
|---|---|---|
| **Fframwaith Perfformiad** | Sicrhau bod y fframwaith yn cyd-fynd â dangosyddion canlyniadau cenedlaethol newydd. | |
| | Mapio tueddiadau a chanlyniadau hirdymor ar sail dadansoddi data gwelliant. | Bydd newidiadau mewn arferion a pherfformiad proffesiynol gyda threigl amser yn cael eu mesur a'u tystio. |
| **2.5 Archwiliadau Thematig Rhanbarthol** | Gwneud Archwiliadau rhanbarthol thematig i gynnwys Defnyddio Pwerau Adran 46 (1989 Deddf Plant) a Galluedd Meddyliol. | Bydd archwiliadau'n cael eu cwblhau sy'n berthnasol i ddysgu a nodwyd. |
| | Nodi themâu archwilio seiliedig ar ddysgu o Adolygiadau Ymarfer a FfPA. | |
| **2.6 Hyfforddiant Amlasiantaethol** | Dal i weithredu strategaeth hyfforddi ranbarthol amlasiantaethol y Bwrdd. | Bydd dewis a chomisiynu hyfforddiant amlasiantaethol ar sail tystiolaeth ac anghenion hyfforddiant. |
| | Comisiynu hyfforddiant amlasiantaethol yn gysylltiedig â themâu rhanbarthol a nodwyd. | |
| | Adolygu ac ailganolbwyntio aelodaeth grwpiau hyfforddiant rhanbarthol. | |
| | Cloriannu effaith hyfforddiant amlasiantaethol. | Bydd cloriannu hyfforddiant yn cynorthwyo a thystiolaethu newid a gwelliannau i arferion proffesiynol. |
| **2.7 Cyfeirebau Camdriniaeth Deuluol** | Nodi ffyrdd mwy effeithlon a chreadigol o reoli Cyfeirebau Camdriniaeth Deuluol, trwy ddefnyddio Canolbwynt Agored i Niwed ac adnoddau Heddlu Dyfed Powys. | Bydd ymateb proffesiynol a llwybrau cyfeirio ar gyfer dioddefwyr Camdriniaeth Deuluol yn gwella. |
| | Dal i weithredu prosiect rhagbrofol i adolygu proses bresennol MARAC ar gyfer dioddefwyr Camdriniaeth Deuluol. | |

| 3 Atgyfnerthu'r Gweithlu a Rheoli Perygl: Datblygu a gweithredu arweiniadau strategol fydd yn galluogi dal gafael a denu mwy i'r gweithlu Gofal Cymdeithasol, a nodi ac ymateb i beryglon sylweddol eraill yn y maes diogelu. | | |
|---|---|---|
| Maes Blaenoriaeth | Beth hoffem ei gyflawni? | Beth yw'r dangosyddion canlyniadau? |
| **3.1 Datblygu, Denu a Dal Gafael ar y Gweithlu.** | Llunio a gweithredu strategaethau ar draws asiantaethau sy'n cynyddu dal gafael ar y gweithlu. | Bydd trosiant staff yn lleihau yn y gweithlu diogelu. |
| | Sicrhau bod strategaethau denu a Llwybrau Gyrfa effeithiol yn bodoli ar gyfer staff i sicrhau staff diogelu medrus. | Bydd swyddi gwag mewn meysydd anodd denu iddynt yn lleihau. |
| | Sicrhau llwybrau mynediad i swyddogaethau diogelu er mwyn galluogi denu staff medrus, gyda chanolbwynt arbennig ar fentrau "tyfu-eich-hun" a chynlluniau noddi staff. | Bydd mwy o gyfleoedd yn cael eu darparu i wella sgiliau a hyfforddi staff, gan beri dal gafael ar fwy a llai o swyddi gwag mewn swyddogaethau diogelu. |
| | Cryfhau cysylltiadau a chyfathrebu gyda phrifysgolion o ran gyrfâu Gofal Cymdeithasol. | |
| | Cynnal sefydlogrwydd ar draws holl asiantaethau ar lefel y Bwrdd sy'n gallu gwrthsefyll cyfnodau o ansefydlogrwydd. | Bydd arferion ar draws y rhanbarth yn aros yn gadarn yn ystod cyfnodau newid. |
| | Dal i gynnal cysylltiadau cryf gyda Byrddau Partneriaeth ranbarthol ynghylch strategaethau denu a dal gafael. | Bydd gwaith cydweithredol ar y cyd ar feysydd o fudd cyffredin yn parhau. |
| **3.2 Cartrefi Nyrsio, Cartrefi Gofal a Darpariaeth Gofal Cartref.** | Sicrhau nodi peryglon yn amserol mewn cysylltiad â niferoedd staff yn lleol ac yn rhanbarthol. | Bydd peirianwaith yn bodoli i alluogi nodi peryglon, y mae modd eu dwysáu'n briodol trwy strwythur y Bwrdd. |
| | Paratoi cynlluniau at raid sy'n galluogi trosglwyddo gwasanaethau allweddol yn fewnol yn brydlon os bydd darparwr yn methu neu'n ymddatod. | Bydd y Bwrdd yn ymwybodol o beryglon a allai fod heddiw ac yn y dyfodol a chymryd camau i liniaru a rheoli hyn. |
| | Llunio dangosfwrdd rhanbarthol i gadw golwg ar wasanaethau a chynorthwyo nodi a dwysáu peryglon yn brydlon. | |
| **3.3 Cymorth a Datblygiad Proffesiynol Ymarferwyr** | Caiff ymarferwyr gymorth i wneud eu swyddogaethau trwy ganllawiau polisi eglur a chyfleoedd datblygu proffesiynol.<br>• Trefnu achlysur rhanbarthol i ddadansoddi arferion diogelu plant Adran 47. | Bydd strategaethau'n cael eu dyfeisio a'u gweithredu i gynorthwyo ymyriad ac atal cynnar. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Blaenoriaethu Datblygu Polisi o ran<br>- Hunanesgeulustod<br>- Anafiadau i Fabanod a phlant bach ansymudol<br>- Pontio o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion | Bydd plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu'n gynharach. |
| **3.4 Rhannu Gwybodaeth** | Cynorthwyo rhannu gwybodaeth yn well ac yn brydlon ymhlith gweithwyr proffesiynol trwy hyfforddi staff a hyrwyddo Protocol Rhannu Gwybodaeth y Bwrdd. | Bydd dealltwriaeth ymarferwyr o ddeddfwriaeth yn gwella.<br>Bydd rhannu gwybodaeth yn gymesur a phrydlon ar draws terfynau asiantaethau'n gwella. |
| **3.5 Cydnabod Arferion Rhagorol** | Datblygu seremoni amlasiantaethol flynyddol i wobrwyo staff sy'n nodi ac yn cydnabod arferion Diogelu rhagorol a llwyddiant. | Bydd cydnabod a gwobrwyo safonau uchel a llwyddiant yn gwella ysbryd y staff. |

| 4 Arweinyddiaeth, Gweledegdd a Her: Dal i roi arweinyddiaeth weladwy a dylanwadu ar yr agenda cenedlaethol mewn cysylltiad â blaenoriaethau diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, a galluogi herio adeiladol a chyfranogiad gweithgar holl asiantaethau yn ein partneriaeth. | | |
|---|---|---|
| Maes Blaenoriaeth | Beth hoffem ei gyflawni? | Beth yw'r dangosyddion canlyniadau? |
| **4.1 Cyfranogiad Aelodau ac Asiantaethau yn y Bwrdd** | Sefydlu aelodau newydd yn y Bwrdd a rhoi gwybodaeth mewn cysylltiad â'u swyddogaeth trwy becyn cynefino aelodau newydd. | Bydd aelodau newydd yn teimlo'n fwy parod ar gyfer eu swyddogaethau yn y Bwrdd. |
| | | Bydd cyfraniadau aelodau'r Bwrdd Gweithredol at fusnes y Bwrdd yn gryfach. |
| | Asiantaethau cymorth i wneud cyfraniad uniongyrchol at gyfathrebiadau'r Bwrdd a chyfrannu at ddiweddariadau a bwletinau. | Bydd ansawdd cyfathrebiadau'r Bwrdd yn well. |
| **4.2 Gwell Defnydd o Dechnoleg ac Atebion Digidol** | Adolygu a gwella ffurf a defnydd fforymau cyfryngau cymdeithasol i ledaenu negeseuon allweddol. | Bydd dulliau cyfathrebu gyda'r cyhoedd ac ymarferwyr yn gryfach. |
| | Nodi technoleg a dulliau digidol newydd i rannu negeseuon a chyrraedd ymarferwyr a'r cyhoedd. | |
| | Dal i ddatblygu gwefan y Bwrdd gyda hysbysrwydd ac adnoddau Diogelu. | Bydd negeseuon a hysbysrwydd diogelu allweddol yn cyrraedd mwy o ymarferwyr a'r cyhoedd. |
| **4.3 Grwpiau Gweithredol Lleol** | Datblygu cofrestr peryglon rhanbarthol i ddwysáu peryglon amlasiantaethol lefel uchel i'r Bwrdd Gweithredol. | Bydd llinell weld y Bwrdd ar beryglon diogelu amlasiantaethol lefel uchel yn gwella. |
| **4.4 Dylanwadu ar yr Agenda Cenedlaethol** | Dal i weithio a chydweithredu gyda Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a fforymau eraill ar faterion o bwysigrwydd cenedlaethol. | Y Bwrdd Gweithredol bydd yn parhau i hybu a dylanwadu'n uniongyrchol ar yr agenda cenedlaethol. |
| | Dal i ddwysáu materion yn genedlaethol pan fo gofyn ymateb Cymru gyfan, gyda chanolbwynt ar y canlynol<br>• Addysg Gartref Ddewisol<br>• Gwiriadau DBS staff<br>• Gwasanaethau pontio o blentyn i oedolyn<br>• Prinder gwelyau llety diogel ar gyfer pobl ifanc mewn perygl mawr | Bydd y Bwrdd Gweithredol yn dangos arweinyddiaeth wrth ymateb i bryderon cenedlaethol. |
| | | Bydd y Bwrdd cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu deddfwriaeth, canllawiau statudol a pholisi cenedlaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| **4.5 Gwelededd y Bwrdd** | Agorwyd y Bwrdd Gweithredol a Grwpiau Gweithredol Lleol yn rhannol i ganiatau arsylwi gan asiantaethau a/neu dimau perthnasol. | Bydd y Bwrdd, ei strwythur busnes a'i swyddogaethau'n fwy agored. |
| | | Bydd dealltwriaeth ymarferwyr ac ymwybyddiaeth o'r Bwrdd a'i swyddogaethau yn well. |
| | | Bydd rhwystrau trefnyddol yn cael eu tynnu, gan alluogi a chynorthwyo cyfranogiad a dealltwriaeth ehangach ymarferwyr o fusnes y Bwrdd. |
| | | Bydd gwell ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a grwpiau cymunedol o swyddogaeth y Bwrdd a'i waith. |
| **4.6 Gweithdrefnau Diogelu Cymru** | Gweithredu'r trefnau newydd mewn ffordd sy'n sicrhau cysondeb a chydymffurfiad rhanbarthol. | Bydd y rhanbarth yn gweithredu'r trefnau newydd yn llwyddiannus mewn ffordd gyson ymhob haen. |

## GWARIANT ARFAETHEDIG Y BWRDD I GYFLAWNI EIN HAMCANION

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol**:<br>• Ceredigion 15%<br>• Powys 25%<br>• Sir Gâr 35%<br>• Sir Benfro 25% | 60% | **Iechyd**:<br>• BIP Hywel Dda 75%<br>• BI Addysgu Powys 25% | 25% | Cyfanswm: 100% |
| **Yr Heddlu**<br>• **Heddlu Dyfed Powys** | 10% | **Profiannaeth**:<br>• NPS 2.5%<br>• CRC 2.5% | 5% | |

| **Cyllideb Arfaethedig 2020-21** | |
|---|---|
| Costau a Chyflogau Staff | 130,690 |
| Offer TG a meddalwedd | 1,000 |
| Costau swyddfeydd, gweinyddu a denu staff | 7,730 |
| Teithio, mannau cyfarfod a chyfathrebu | 5,120 |
| Cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a chyfieithu | 1,500 |
| Comisiynu ymchwil, prosiectau a gomisiynwyd yn annibynnol a chyflwyno hyfforddiant rhanbarthol wrth fesur yn allanol | 10,090 |
| | |
| | |
| **CYFANSWM** | **156,130** |

| **Cyfraniadau Arfaethedig Asiantaethau 2020-21** | |
|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | 13,380 |
| Cyngor Sir Powys | 22,235 |
| Cyngor Sir Gâr | 31,050 |
| Cyngor Sir Penfro | 22,235 |
| Heddlu Dyfed Powys | 14,810 |
| Gwasanaeth Profiannaeth Cymru | 3,715 |
| Gwasanaeth Ailsefydlu Cymunedol | 3,715 |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 27,735 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 9,245 |
| Cyfraniad o gronfeydd | 8,010 |
| **CYFANSWM** | **156,130** |

## SUT YDYM YN BWRIADU CYDWEITHREDU GYDA PHOBL NEU GYRFF ERAILL

Bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru'n dal i weithio'n gydweithredol ac mewn partneriaeth â holl Fyrddau Diogelu eraill yng Nghymru trwy fynychu cyfarfodydd rheolaidd Rheolwyr a Chydgysylltwyr Busnes sy'n cael eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arferion da'n rheolaidd o ran adolygiadau ymarfer, cydgysylltu themâu a chyfathrebu'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, ac achlysuron eraill i'r diben / wrth fesur sy'n cael eu trefnu'n allanol.

Mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at ddal i weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) ac mae'n ymroddi i ddal i weithio'n gydweithredol gyda nhw ar faterion o bwysigrwydd cyffredin.

Byddwn yn dal i gadw cyswllt a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar unrhyw faterion o bwysigrwydd cenedlaethol. Y llynedd, tynnodd y Bwrdd sylw Llywodraeth Cymru at faterion amlasiantaethol

cenedlaethol pwysig, gan gynnwys yr angen am wiriadau DBS mwy cadarn ar gyfer staff mewn swyddi allweddol yn ogystal â diffyg adnoddau priodol ar gyfer Canolfannau Camdriniaeth Rywiol a Chyfeirebau (SARC) yng Nghymru.

Mae dadansoddiad o themâu o gyfeirebau ac argymhellion o adolygiadau ymarfer eleni wedi nodi nifer o flaenoriaethau y bydd y Bwrdd yn canolbwyntio arnynt ac yn tynnu sylw atynt ledled y wlad yn y flwyddyn a ddaw fel yr amlinellwyd yn ein blaenoriaethau. Daliwn i ymdrechu i gryfhau cysylltiadau gyda fforymau a phartneriaethau rhanbarthol presennol a ffurfio cysylltiadau gydag eraill, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**SUT YDYM YN RHOI CYFLE I BOBL GYFRANOGI OS YW GWAITH Y BWRDD YN EFFEITHIO ARNYNT**

Mae ymgysylltu ystyrlon ag oedolion mewn perygl yn dal yn flaenoriaeth uchaf y flwyddyn a ddaw. Mae cynnydd yn dal i fod yn y maes hwn ond, fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i blannu hyn yng ngwaith arferol y Bwrdd. Rydym yn bwriadu canolbwyntio ar nodi fforymau presennol yn y flwyddyn a ddaw ac edrych ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu ag oedolion mewn perygl a grwpiau anodd eu cyrraedd. Mae trafodaethau ar y gweill gyda fforymau a phartneriaethau eraill yn y rhanbarth i gydweithio.

Mae Bwrdd CYSUR yn dal i gomisiynu TGP Independent Advocacy Service i hwyluso Bwrdd Diogelu Iau Rhanbarthol (RJSB) CADW. Bydd aelodau'r grŵp yn mynychu'r Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd i drafod eu gwaith gydag aelodau. Bydd y grŵp yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, gan gynnwys achlysur preswyl blynyddol. Bydd y grŵp yn dal i roi cyngor a gwybodaeth i'r Bwrdd Gweithredol yn y flwyddyn a ddaw ar amrywiaeth o faterion diogelu sy'n bwysig a pherthnasol i bobl ifanc.

Yn ogystal â'r Bwrdd CADW rhanbarthol, pob un o'r pedwar awdurdod lleol, Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion a Phowys, mae gan eu Grwpiau Diogelu Iau Lleol a phartneriaethau eu hunain. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn agos â thri o'r pedwar Grŵp Gweithredol Lleol (GGLl) lle bydd aelodau iau'n mynychu ac yn rhoi gwybodaeth i gyfarfodydd GGLl ar faterion diogelu lleol i bobl ifanc. Bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn a ddaw.

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ewch i'n gwefan: www.cysur.cymru

**SUT I HYSBYSU PRYDER**

Os byddwch yn amau bod plentyn, rhywun ifanc neu oedolyn mewn **perygl dybryd o niwed ffoniwch 999** a siarad â'r Heddlu.

Os hoffech hysbysu digwyddiad **nad yw'n argyfwng** neu os oes gennych broblem neu ymholiad cyffredinol, gallwch ffonio 101, sef rhif difrys 24 awr yr Heddlu.

Os ydych yn pryderu ynghylch diogelwch neu ffyniant plentyn, mae'n ddyletswydd arnoch i'w hysbysu ar unwaith trwy gysylltu â'r canlynol:

| |
|---|
| **SIR GÂR:**<br>Yn ystod oriau swyddfa:<br>Tîm Atgyfeirio Canolog – Ffôn: 01554 742322<br>E-bost:CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk<br>Oddi allan i oriau swyddfa: Ffôn: Tel: 0300 333 2222 |
| **CEREDIGION:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: Canolfan Gysylltu – Ffôn: 01545 574000, Ffacs: 01545 574002<br>E-bost:contact-socservs@ceredigion.gov.uk<br>Oddi allan i oriau swyddfa: Tîm Dyletswydd Argyfwng – Ffôn: 0300 456 3554 |
| **SIR BENFRO:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: Tîm Asesu – Ffôn: 01437 776444<br>E-bost: ccat@pembrokeshire.gov.uk<br>Oddi allan i oriau swyddfa: Tîm Dyletswydd Argyfwng – Ffôn: 0300 333 2222 |
| **POWYS:**<br>Llinell Uniongyrchol Powys:<br>Ffôn: 01597 827666<br>E-bost: people.direct.children@powys.gov.uk |

Os ydych yn pryderu ynghylch diogelwch neu ffyniant oedolyn, mae'n ddyletswydd arnoch i'w hysbysu ar unwaith trwy gysylltu â'r canlynol:

| |
|---|
| **SIR GÂR:**<br>Gwasanaeth IAA ar 0300 333 2222 neu wneud cyfeireb trwy ein gwefan www.sirgar.llyw.cymru<br>E-bost: iaa@deltawellbeing.org.uk |
| **CEREDIGION:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: Canolfan Gysylltu – Ffôn: 01545 574000, Ffacs: 01545 574002<br>E-bost:contact-socservs@ceredigion.gov.uk<br>Oddi allan i oriau swyddfa: Tîm Dyletswydd Argyfwng – Ffôn: 0300 456 3554 |
| **SIR BENFRO:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: Tîm Asesu – Ffôn: 01437 776056<br>E-bost: adult.protection.team@pembrokeshire.gov.uk<br>Oddi allan i oriau swyddfa: Tîm Dyletswydd Argyfwng – Ffôn: 0300 333 2222 |
| **POWYS:**<br>Llinell Uniongyrchol Powys:<br>Ffôn: 01597 827666<br>E-bost: people.direct.adult@powys.gov.uk |